# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 16.06.11

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones a Margaret Griffith.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis Evans, Mr Malcolm Jones a Mr Sam Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Iwan Evans (Dirprwy Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod etholedig); Mr Gwyn Williams (aelod annibynnol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eglurodd y Swyddog Priodoldeb fod Mr Gwyn Williams wedi ymddiheuro o'r cyfarfod hwn oherwydd bod ganddo fuddiant personol yn y materion dan sylw oherwydd ei gysylltiad teuluol â'r cynghorydd sy'n destun ymchwiliad yr Ombwdsmon.

Yna cadarnhaodd y Swyddog Priodoldeb, mewn ymateb i gwestiwn, nad oedd gan yr aelodau etholedig ar y Pwyllgor Safonau fuddiant personol yn y materion hyn gan nad oedd adnabod y cynghorydd dan sylw, drwy fod yn gyd-aelodau iddo/iddi ar y Cyngor, yn ddigon o gysylltiad i greu buddiant personol. Hefyd, 'roedd cyfansoddiad statudol pwyllgorau safonau yn golygu y byddai aelodau etholedig yn ystyried cwynion yn erbyn aelodau o'r un awdurdod.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n rhoi gwybod ymlaen llaw i'r aelodau pwy yw cynrychiolydd y cynghorydd yn y gwrandawiad rhag ofn y cyfyd sefyllfa o fuddiant annisgwyl.

*(Newidiwyd trefn y ddwy eitem ganlynol ar y rhaglen er mwyn sefydlu natur a lefel y gynrychiolaeth gyfreithiol i'r aelod dan sylw cyn symud ymlaen i ystyried unrhyw bwyntiau ymarferol o ran trefn y gwrandawiad ei hun.)*

## 2. INDEMNIAD MEWN PERTHYNAS Â CHYNRYCHIOLAETH GYFREITHIOL YNG NGWRANDAWIAD Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Priodoldeb yn gofyn i'r pwyllgor benderfynu ar natur a lefel y gynrychiolaeth broffesiynol fyddai'n briodol i'w had-dalu i'r aelod sy'n destun cŵyn yr Ombwdsmon o dan delerau Indemniad y Cyngor i Aelodau a Swyddogion.

Wrth ddod i benderfyniad ar y mater, ystyriwyd natur yr achos dan sylw a'r raddfa gyfredol am y math hwn o wasanaeth.

**PENDERFYNWYD y dylid ad-dalu unrhyw gostau rhesymol yn ymwneud â'r achos. Penderfynwyd y byddai costau cyfreithiwr hyd at lefel partner yn dderbyniol, gan ddiffinio 'lefel partner' fel costau hyd at £180 yr awr. 'Roedd y pwyllgor hefyd yn rhagweld y byddai angen am dridiau o waith (sef diwrnod o gymryd cyfarwyddiadau, diwrnod o waith paratoi a diwrnod o wrandawiad).**

## 3. GWEITHDREFN GWRANDAWIADAU Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Priodoldeb yn cyflwyno'r weithdrefn gwrandawiadau yn y ffurf y'i cymeradwywyd gan y pwyllgor hwn yn ei gyfarfod diwethaf. Eglurodd, er y cyflwynid y ddogfen hon er gwybodaeth, bod hwn yn gyfle i'r aelodau godi unrhyw bwyntiau neu gwestiynau ymarferol cyn y gwrandawiad.

Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod y sawl sy'n destun y gŵyn yn cwblhau'r holiadur yn llawn ymlaen llaw.

Trafodwyd y cwestiwn o gyflwyno tystiolaeth hwyr. Mynegodd aelod y farn na ddylid caniatáu tystiolaeth hwyr, ond pwysleisiodd eraill na ddylid cau'r drws ar hynny'n llwyr. Yn yr amgylchiadau, cytunwyd bod y Swyddog Priodoldeb yn hysbysu'r ddwy ochr ymlaen llaw y disgwylir iddynt gyflwyno'r holl dystiolaeth mewn pryd.

**PENDERFYNWYD nodi'r weithdrefn er gwybodaeth.**

Ar derfyn y cyfarfod, cytunwyd i ganslo'r cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Safonau oedd i'w gynnal ar 4 Gorffennaf oherwydd nad oedd yna unrhyw faterion sydd angen penderfyniad ar hyn o bryd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30pm a daeth i ben am 2.30pm.